# Taith drwy'r Adfent 2020



# Nodiadau a Sylwadau

Mae'r Nadolig yn mynd i fod yn wahanol eleni - neu dyna beth mae'n nhw'n ei ddweud wrthym ni beth bynnag(!) Felly, efallai bod hwn yn gyfle i ddychwelyd at rywbeth sy'n gyfarwydd i ni ac i ail-ymgyfarwyddo â rhai o gymeriadau'r Nadolig cyntaf hwnnw, gan eu dilyn ar eu taith trwy'r hanes am enedigaeth Iesu - hanes a fyddai'n newid y byd am byth.

Wrth ichi ddefnyddio'r cyfnodolyn Adfent hwn, gweddïwn y byddwch yn cael eich rhyfeddu gan ymdeimlad o'r cariad, y llawenydd, yr heddwch a'r gobaith a ddaw yn sgil dyfodiad Iesu. Ac wrth i chi brofi'r cariad hwnnw, ymhyfrydu yn y llawenydd hwnnw, gorffwys yn yr heddwch hwnnw a rhagweld y gobaith hwnnw, yng nghanol popeth sy'n wahanol ac anghyfarwydd, ein gobaith yw y bydd Duw yn eich gwefreiddio wrth i chi gael eich atgoffa eich bod chi'n cael eich caru gan yr Un, sydd yn Iesu, wedi dod i achub y byd!

# Nodiadau a Sylwadau

Ar ôl i ti farw a chael dy gladdu,
bydda i'n codi un o dy linach yn dy le – mab i ti.
A bydda i'n gwneud ei deyrnas e yn gadarn.
Bydd e'n adeiladu teml i'm anrhydeddu i;
a bydda i'n gwneud yn siŵr y bydd e'n teyrnasu am byth.

2 Samuel 7:12b-13

Dydd Llun 30 Tachwedd

Eseia 9:2-7

Strategydd rhyfeddol, y Duw arwrol, Tad yr oesoedd, Tywysog heddwch. Eseia 9:6b

Yn ôl cân enwog Andy Williams, dyma adeg fwyaf rhyfeddol y flwyddyn, ond yn y nofel A Christmas Carol gan Charles Dickens ceir cyfeiriad enwog Ebenezer Scrooge at y Nadolig fel "Bah Humbug". Boed mewn ffuglen neu gerddoriaeth, mae'n ddiogel dweud bod gan y Nadolig y gallu i ennyn safbwyntiau cyferbyniol. Ond wrth i ni ddechrau ar ein taith drwy'rAdfent, rydyn ni'n gwneud hynny gan wybod y bydd y Nadolig hwn, efallai'n fwy nag unrhyw Nadolig arall, yn un gwahanol.

Yng ngoleuni Covid-19, y cyfnodau clo a phrynu llwythi o bapur tŷ bach, byddai'n gamgymeriad esgus bod popeth yn digwydd yn ôl yr arfer. Clod i Dduw ein bod yn darllen yn llyfr Eseia mai i ganol llanast ein bywydau, i ganol heriau'r byd, y byddai'r Cynghorwr rhyfeddol yn dod.

Yn Eseia, rydyn ni'n darllen proffwydoliaeth sy'n cyfeirio at enedigaeth Crist, ac yn adnod 6 fe welwn ni'r datganiad hynod hwnnw – "Achos mae plentyn wedi cael ei eni i ni". I 'NI'. Daeth Crist er dy fwyn di! Rydyn ni'n gwneud y Nadolig am bob math o bethau ond fe welwn ni yn y fan hon mai Duw oedd y cyntaf i roi, wrth iddo anrhegu Ei Fab i'r byd ac i ddynoliaeth, er mwyn dechrau ar daith a fyddai'n arwain at groesbren er dy fwyn di ac er fy mwyn innau.

Rwy'n un sy'n hoff iawn o'r Nadolig – lapio'n gynnes ac yfed paneidiau o de poeth wrth wylio'r eira'n disgyn a swatio i wylio ffilm Nadoligaidd. Rydw i wrth fy modd gyda gwasanaethau carolau a gweld yr adeilad yn llawn. Rydw i wrth fy modd gyda'r teulu a'r cyfeillgarwch a'r cyfnewid anrhegion. Ond hyd yn oed pe na bai'r un o'r pethau hynny'n digwydd, pe bai'r teledu'n torri a ninnau i gyd mewn cyfnod clo heb laeth i wneud paned, hyd yn oed wedyn, fyddai gwirionedd y Nadolig ddim wedi'i golli, achos nid unrhyw un o'r pethau hyn yw gwirionedd y Nadolig!

Efallai ei fod yn swnio'n ystrydebol, efallai ei fod yn swnio fel ateb yr 'eglwys', efallai ei fod yn swnio llawer fel y geiriau ar y cardiau bach hynny mae pobl yn eu postio drwy eich drws yr adeg yma o'r flwyddyn – ond y gwir yw hyn – mae'r Nadolig yn bodoli achos bod "plentyn wedi cael ei eni i ni". Iesu yw hanfod y Nadolig; yma mae Eseia'n siarad am obaith yn y dyfodol, am rywbeth sydd eto i ddod.

Wrth i ni fyfyrio ar yr adnodau hyn dros y ddau ddiwrnod nesaf, ystyria eiriau Eseia. Pa mor syfrdanol fyddai darllen y rhain am y tro cyntaf a chael gobaith i'r dyfodol, sef datguddiad fod Duw, y Creawdwr mawr rhyfeddol, yn dod i'r byd ar ffurf baban.

Treulia amser yn y testun. Gad iddo dy adfywio di, gad iddo dorri drwy'r heriau mae pob un ohonom ni'n eu hwynebu â'r gwirionedd fod Iesu wedi dod drosot ti. Roedd Iesu'n dod i ganol y llanast ac mae'n dal i ddod i ganol y llanast. Dychmyga ysgrifennu'r geiriau proffwydol hynny, gyda'r pen yn crynu wrth i'r inc ddatgan dyfodiad y Brenin.

Dydd Mawrth 1 Rhagfyr

Sut gwnaeth yr adnodau siarad â thi?

Sut gelli di adael i wirionedd a her y testun wneud argraff ar dy adfent?

Dduw, rwy'n diolch i Ti am…

Dydd Mercher 2 Rhagfyr

Luc 1:5-25

Roedd Sachareias wrthi'n llosgi'r arogldarth, ac yn sydyn gwelodd un o angylion yr Arglwydd o'i flaen yn sefyll ar yr ochr dde i'r allor. Luc 1:11

Yn ystod y cyfnod cyn y Nadolig, rwy'n cyffroi mwy am y paratoadau nag am y diwrnod ei hun os ydw i'n onest! Rwy'n gwybod y bydd yna rai sy'n casáu gweld nwyddau'r Nadolig yn ymddangos yn y siopau ym mis Hydref, ond rydw i wrth fy modd gyda hynny! Rydw i wrth fy modd gyda'r Nadolig, wrth fy modd gyda'r tymor. Dewis anrhegion, bwyta bocsys o fisgedi siocled dethol yn lle'r custard creams arferol, trefnu'r ymweliadau a'r bwyd a mynd ag anrhegion a chardiau a phob dim – mae cymaint o bethau i'w gwneud ond mae'n Nadolig wedi'r cyfan!

Byddai Sachareias wedi mynd trwy gyfnod digon llym o gynllunio a pharatoi er mwyn mynd i mewn i'r deml. Rydyn ni'n darllen yn yr adnodau ei fod e a'i wraig Elisabeth yn gyfiawn ac yn gwneud yn union fel roedd Duw'n ei ddweud. Roedd y paratoi wedi'i wneud; roedd y gwaith wedi'i gyflawni.

Byddai gan Sachareias glychau ar ei wisg a rhaff o gwmpas ei ffêr wrth iddo fynd i'r deml, gan wneud yn siŵr, pe bai unrhyw beth yn digwydd iddo, y gallai ei gorff gael ei lusgo allan heb fod angen i unrhyw un nad oedd wedi'i ddewis trwy goelbren fynd i mewn. Roedd y paratoi wedi'i wneud, y disgwyl ar ben.

Dydyn ni ddim yn darllen unrhyw beth am yr hyn oedd ar feddwl Sachareias, am yr hyn roedd e'n ei ddisgwyl wrth iddo fynd i'r deml i losgi'r arogldarth. Byddai'n ymwybodol bod hyn o bwys mawr. Eto i gyd, roedd pobl eraill wedi gwneud hyn ac roedd yn ddefod arferol. Wrth i ni ddarllen iddo weld Garbiel, gallwn ni ddod i'r casgliad nad oedd Sachareias wedi disgwyl i unrhyw beth arbennig ddigwydd yn y deml y diwrnod hwnnw.

Wrth i ni ymdeithio drwy'r adfent, beth ydych chi'n ei ddisgwyl yr adeg yma o'r flwyddyn? Llawenydd yr eira a'r teulu a'r anrhegion? Baich yr eira a'r teulu a'r anrhegion?

Efallai eleni, wrth i ni symud drwy'r adfent, wrth i ni amgyffred stori geni'r Iesu, gallen ni ddisgwyl rhagor pe baen ni'n gadael i'r broses a'r paratoi gymryd sedd ôl bob dydd, dim ond am gyfnod, a chanolbwyntio ar Iesu.

Cafodd Sachareias gyfarfod a fyddai'n newid ei fywyd e, bywyd ei wraig a bywydau cannoedd yn uniongyrchol a miliynau'n anuniongyrchol – beth allai Duw ei wneud yn dy fywyd di, yn yr annisgwyl, yn ystod tymor sydd mor gyfarwydd i ni i gyd?

Dydd Iau 3 Rhagfyr

Sut gwnaeth yr adnodau siarad â thi?

Sut gelli di adael i wirionedd a her y testun wneud argraff ar dy adfent?

Dduw, rwy'n diolch i Ti am…

Dydd Gwener 4 Rhagfyr

Luc 1:26-38

A dyma Mair yn dweud, "Dw i eisiau gwasanaethu'r Arglwydd Dduw. Felly gad i beth rwyt wedi'i ddweud ddod yn wir." Wedyn dyma'r angel yn ei gadael hi. Luc 1:38

Gallwn ni gael ein rhwydo gan y stori hon. I'r rhan fwyaf ohonom ni, byddwn ni'n ei chlywed 3 neu 4 gwaith y flwyddyn, drwy wahanol gyfryngau, yn amrywio o gynyrchiadau gan blant i ffilmiau Hollywood ac i bregethau gan weinidogion. Rydyn ni'n gwybod stori'r Nadolig, on'd ydyn ni?

Gadewch i ni edrych ar sefyllfa Mair – angel, dyna gyffrous!! Wedi cael ffafr – gwych!! Mab sy'n Waredwr y byd – WAW!!!

Ond beth am gymryd cam yn ôl am funud. Merch yn ei harddegau, yn paratoi i briodi, yn deffro i weld angel yn dweud wrthi bod Duw, sef yr Un maen nhw'n aberthu iddo ar hyn o bryd, yn ei hadnabod hi, yn ei gweld hi, a hithau'n cael ffafr yn ei olwg. Mae hyn yn gwbl arloesol; dyma'r nefoedd yn dod i gwrdd â'r ddaear. Ond mae hyn yn mynd i fod yn gymhleth. Mae Mair yn forwyn sydd ar fin priodi. Mae hyn yn mynd i fod yn llanast!

Gyda'r cyfan yn gwibio drwy ei meddwl, gyda'r angel yn sefyll o'i blaen, gyda chynlluniau ei phriodas ar chwâl a'i hanrhydedd wedi'i chwalu'n fwy fyth, fe glywn ni'r geiriau yma:

"Dw i eisiau gwasanaethu'r Arglwydd Dduw. Felly gad i beth rwyt wedi'i ddweud ddod yn wir."

Rwy'n gallu creu helynt pan ydw i'n gwybod bod Duw'n dweud wrtha' i am ymddiheuro wrth rywun neu faddau i rywun. Gall fod yn ymdrech pan ydw i'n teimlo Duw'n fy nghymell i fynd at rywun am sgwrs. Ac eto mae Mair, a hithau newydd glywed bod popeth ar fin newid, yn ildio i Dduw, a hyd yn oed yn gofyn i'r gair hwn ddod yn wir.

Caiff ffydd y ferch ifanc ei hanghofio mor aml yn stori'r Nadolig, ond mae angen i ni weld y ffydd sydd ganddi yn Nuw, yn Ei ddaioni a'i gynlluniau hyd yn oed pan fo'n edrych fel petai ein cynlluniau ni'n chwalu'n deilchion.

Wrth i ti ddarllen drwy'r adnodau hyn, ystyria'r geiriau, ystyria ddyfnder y sefyllfa a pharodrwydd Mair i fod yn rhan o stori Duw. Ble mae Duw'n gofyn i ti ddangos y ffydd a ddangosodd Mair? Sut wyt ti'n gallu gadael i'w stori E blethu â'th stori di?

Dydd Sadwrn 5 Rhagfyr

Sut gwnaeth yr adnodau siarad â thi?

Sut gelli di adael i wirionedd a her y testun wneud argraff ar dy adfent?

Dduw, rwy'n diolch i Ti am…

Ond wedyn ti, Bethlehem Effrata,
rwyt ti'n un o'r pentrefi
lleiaf pwysig yn Jwda.
Ond ohonot ti y daw un
fydd yn teyrnasu yn Israel

Micha 5:2

Dydd Llun 7 Rhagfyr

Luc 1:39-45

"Rwyt ti wedi dy fendithio'n fawr, am dy fod wedi credu y bydd yr Arglwydd yn gwneud beth mae wedi'i ddweud wrthot ti." Luc 1:45

Tybed beth rwyt ti'n ei golli? Roedd y genhedlaeth hŷn yn arfer dweud "Nôl yn fy nyddiau i" neu "Dw i'n cofio pan...", ond mae Covid-19 wedi gwneud i fi sylweddoli nad dim ond y rhai sydd â nifer fawr o ganhwyllau ar eu cacen pen-blwydd sy'n gweld eisiau pethau.

Mae fy egni, fy angerdd a llawer o'm llawenydd i'n dod o gwmni pobl eraill, felly dyfala beth rwy'n ei golli. Ie, pobl! Yr hyn rydw i wedi ei sylweddoli yw po hiraf mae'r cyfnod clo'n para, y mwyaf rwy'n gweld eisiau'r gymuned o'm cwmpas i. Paid â'm camddeall i, mae llawer o bethau cadarnhaol wedi digwydd, ond dydy hynny ddim yn cuddio'r ffaith fod rhywbeth sy'n annwyl gen i, rhywbeth rwy'n ei fwynhau ac mewn sawl ffordd rywbeth sydd ei angen arna' i, ar goll o'm bywyd bob dydd.

Allet ti ddychmygu'r stori fach yma'n digwydd dros Zoom?

Mair: "Elisabeth, tro dy gamera ymlaen".

Elisabeth: "Wyt ti'n gallu fy nghlywed i, Mair, dw i'n gallu dy weld di, wyt ti'n gallu fy ngweld i?"

Mair: "Lis, gofynna i Sach chwifio'i law".

Elisabeth: *Cysylltiad â'r rhyngrwyd yn anghyson*

Mair: "Lis, rwyt ti wedi rhewi, wyt ti'n gallu fy nghlywed i? Mae gen i newyddion".

Fyddai'r stori ddim wedi bod yr un fath! Ac er fy mod i'n ddiolchgar am Zoom ac am y rhyngrwyd, rwy'n dal i golli pobl. Rydw i eisiau profi'r eiliadau hynny, fel y gwelwn ni yn y testun, lle mae llawenydd y foment yn cael ei rannu, lle mae'r ysbryd i'w deimlo mewn fflach.

Ond dydy'r gymuned ddim wedi diflannu. Efallai na allwn ni 'gwrdd' ond mae gennyn ni gymdogion o hyd. Mae'r neges am ddyfodiad y Meseia'n un mae angen ei rhannu bob amser. Efallai mai eleni, 2020, yw'r amser i rannu'r neges gyda phobl wahanol. Wrth bwy y gallwch chi sôn am neges Iesu? Gan gadw pellter cymdeithasol a dilyn y canllawiau, ond gan ddal i rannu'r newyddion da am y Brenin sydd i ddod?

Dyna foment ryfeddol a rannwyd gan y ddwy wraig yma. Adlewyrcha ar y darn byr hwn â'th lygaid yn agored i lawenydd yr hyn mae Duw'n ei wneud, ac ystyria sut gelli di fod yn rhan o'r stori hon sy'n llawn newyddion da.

Dydd Mawrth 8 Rhagfyr

Sut gwnaeth yr adnodau siarad â thi?

Sut gelli di adael i wirionedd a her y testun wneud argraff ar dy adfent?

Dduw, rwy'n diolch i Ti am…

Dydd Mercher 9 Rhagfyr

Luc 1:57-66

Roedd pawb yn gofyn, "Beth fydd hanes y plentyn yma?" Roedd hi'n amlwg i bawb fod llaw Duw arno. Luc 1:66

Mae'r Nadolig yn adeg i adlewyrchu ar y flwyddyn a aeth heibio. Caiff ei ddilyn yn gyflym gan y Flwyddyn Newydd, sef adeg i freuddwydio am yr hyn sydd eto i ddod. Mae'r natur ddynol yn aml yn gwneud lle i hiraeth ac uchelgais. Fel arfer bydd y ddau'n creu cydbwysedd perffaith, ond bydd gormod o un yn cael effaith negyddol ar y llall.

Er enghraifft, mae breuddwydio o hyd am yr hyn sydd i ddod heb fyth ddysgu oddi wrth y gorffennol yn ffordd sicr o ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol!

Os na fyddwn ni'n gwneud dim ond edrych yn ôl ar sut roedd pethau'n arfer cael eu gwneud yn y gorffennol, byddwn ni'n methu cyfleoedd newydd; nid drwy edrych yn ôl y mae gyrru car yn ei flaen!

Yn y darn heddiw, rydyn ni'n gweld y foment anhygoel yma pan oedd y bobl yn edrych yn ôl ar y cyfan oedd wedi'u harwain nhw at yr eiliad hon, a'u hymateb yw gofyn, "Beth fydd hanes y plentyn yma?" Rydw i wrth fy modd â'r agwedd yma! Edrych yn ôl er mwyn pwyso ymlaen, edrych yn ôl er mwyn helpu i ddeall beth sydd nesaf, edrych yn ôl i weld sut mae Duw wedi gweithio er mwyn helpu cyfleu cyffro am yr hyn y bydd Duw'n ei wneud nesaf.

Wrth i ni dreulio amser yn y darn hwn am gwpl o ddiwrnodau, oeda ac edrycha'n ôl ar yr hyn mae Duw wedi'i wneud, ar yr hyn rwyt ti wedi'i ddysgu. Neilltua amser i adlewyrchu ar hyn. Wrth i ti wneud hynny, efallai gallet ti ysgrifennu rhai o'r pethau sydd ar dy feddwl. Yna dechreua adael i'th lygaid edrych ymlaen; beth mae Duw'n ei wneud nawr? Beth allai Duw fod yn ei wneud nesaf? Gweddïa am sut rwyt ti'n gallu bod yn rhan o'r hyn bydd Duw'n ei wneud yn y dyfodol, yn dy ddyfodol di.

Treulia amser yn y testun. Gad iddo dy adfywio di, gad iddo dorri drwy'r heriau mae pob un ohonom ni'n eu hwynebu â'r gwirionedd fod Iesu wedi dod drosot ti. Roedd Iesu'n dod i ganol y llanast ac mae'n dal i ddod i ganol y llanast. Dychmyga ysgrifennu'r geiriau proffwydol hynny, gyda'r pen yn crynu wrth i'r inc ddatgan dyfodiad y Brenin.

Dydd Iau 10 Rhagfyr

Sut gwnaeth yr adnodau siarad â thi?

Sut gelli di adael i wirionedd a her y testun wneud argraff ar dy adfent?

Dduw, rwy'n diolch i Ti am…

Dydd Gwener 11 Rhagfyr

Mathew 1:18-25

Roedd Joseff, oedd yn mynd i'w phriodi, yn ddyn da a charedig. Doedd e ddim eisiau gwneud esiampl ohoni a'i chyhuddo hi'n gyhoeddus, felly roedd yn ystyried yn dawel fach i ganslo'r briodas. Mathew 1:19

Dros y cwpl o ddiwrnodau diwethaf, efallai i ti edrych yn ôl ar rai o'r pethau yn dy fywyd, ac yn lle cael dy danio, rwyt ti wedi bod yn poeni i ti wneud dy hun yn anghymwys mewn gwirionedd ar gyfer cynlluniau Duw.  Efallai i ti ofyn "Sut gallai Duw faddau i fi, sut gallai E fy nefnyddio i?"

Rwy'n dal i syrthio i'r fagl yma, sef poeni fy mod i wedi gwneud camgymeriadau sy'n fy eithrio i neu boeni fy mod i wedi colli cyfle. Ond dylai adnodau heddiw ein llenwi ni â hyder.

Roedd Joseff ar fin cerdded i ffwrdd. Nid dim ond oddi wrth Mair ond hefyd oddi wrth y stori fwyaf anhygoel erioed. Roedd Joseff yn ystyried cerdded i ffwrdd oddi wrth gynllun Duw i achub y ddynoliaeth gyfan! Ystyria hynny am funud – roedd hwn yn ddewis anferth ac roedd Joseff yn gwyro tuag at y drws.

Ar yr eiliad hon, gallai Joseff fod wedi cael ei eithrio o'r stori. Gallai fod wedi ei gael ei hun yn colli'r cyfle i fod yn rhan o'r cyfan roedd Duw ar fin ei wneud. Wyt ti'n gallu dychmygu gadael ar yr union adeg pan oedd digwyddiadau pwysicaf y ddaear ar fin cymryd lle? Mae'n siŵr y byddai Duw'n ddig gyda Joseff am ystyried gadael? Mae'n siŵr fod Duw'n ddig gyda fi am yr hyn wnes i, yr hyn ddywedais i, yr hyn feddyliais i?

Mae'r angel yn cyrraedd er mwyn dileu enw Joseff o'r stori… Ond nid dyna sy'n digwydd. Mae'r angel yn rhoi sicrwydd iddo ac yn gwneud iddo ganolbwyntio'i olwg ar y dyfodol. Wrth i Joseff ddeffro mae'n gwneud hynny gan fod yn barod i gamu ymlaen, yn barod i gerdded gyda Mair, yn barod i fod yn dad i Iesu a bod yn rhan o stori Duw.

Beth mae Duw'n ei ddweud wrthyt ti am bwy wyt ti a beth rwyt ti'n gallu ei wneud? Wrth i ni agosáu at y Nadolig, agosáu at ddathlu genedigaeth Crist, gallai fod wedi edrych yn wahanol petai Joseff heb ei wneud ei hun yn agored i glywed gan Dduw. Beth mae Duw'n ei ddweud wrthyt ti?  Sut gelli di gael effaith ar fywydau'r rhai o'th gwmpas di yn ystod tymor y Nadolig?

Dydd Sadwrn 12 Rhagfyr

Sut gwnaeth yr adnodau siarad â thi?

Sut gelli di adael i wirionedd a her y testun wneud argraff ar dy adfent?

Dduw, rwy'n diolch i Ti am…

**Felly, mae'r Meistr ei hun yn mynd i roi arwydd i chi! Edrychwch, bydd y ferch ifanc yn feichiog, ac yn cael mab – a bydd y plentyn yn cael ei alw yn Emaniwel.**

Eseia 7:14

Dydd Llun 14 Rhagfyr

Luc 2:1-7

Tra oedden nhw yno daeth yn amser i'r babi gael ei eni. Luc 2:6

Faint o gynllunio rwyt ti wedi'i wneud ar gyfer y Nadolig? Wyt ti wedi archebu'r anrhegion eto? Oeddet ti wedi cynllunio i fynd i ffwrdd? I ymweld â ffrindiau a theulu? Efallai bod angen i ti fynd at y cigydd ac archebu'r cinio Nadolig! Mae'r rhestr yn un hir a gall y cynllunio dyfu'n ganolbwynt yr holl dymor. Rydyn ni'n hoffi bod popeth wedi'i gynllunio. Rydyn ni eisiau cael pethau yn eu lle a gwybod ein bod ni'n barod.

Adfent yw tymor y paratoi, tymor y disgwyl am yr hyn sydd i ddod, sef Iesu. Eto i gyd, rydyn ni'n gweld heddiw fod yr holl gynlluniau gorau, sef yn wreiddiol y cynlluniau ar gyfer priodi, wedi mynd allan drwy'r ffenest pan aeth Mair yn feichiog. Aeth y cynlluniau ar gyfer lle geni'r plentyn allan drwy'r ffenest hefyd – mae'n amheus gen i y byddai siwrnai faith (faint ohonom ni sydd fel arfer yn eu gwneud nhw'r adeg yma o'r flwyddyn) a dim lle a diffyg gwlâu wedi bod yn rhan o'r cynllun mawr byddai Joseff a Mair wedi'i wneud.

Ond eto i gyd, ynghanol yr hyn sy'n ymddangos fel diffyg paratoi, fe welwn ni fod Duw'n gwybod beth oedd E'n ei wneud;

Micah 5:2

"Ond wedyn ti, Bethlehem Effrata,
rwyt ti'n un o'r pentrefi
lleiaf pwysig yn Jwda.
Ond ohonot ti y daw un
fydd yn teyrnasu yn Israel –
Un sydd â'i wreiddiau yn mynd yn ôl
i'r dechrau yn y gorffennol pell."

Tybed faint o'n cynlluniau gorau ni sydd ddim yn rhan o gynlluniau Duw? Pa mor aml rydyn ni'n palu ymlaen yn ffôl â'n hymdrechion gorau pan fo Duw'n dangos ffordd arall.

Yn nhymor y disgwyl wrth i ni aros i ddathlu geni'r Iesu, pa rwystr rwyt ti wedi'i roi ar y ffordd? Beth wyt ti wedi'i wneud yn bwysicach na'r rheswm dros ein dathlu?

Mewn blwyddyn pan fo popeth wedi'i droi â'i ben i waered, pan fo cynlluniau wedi'u newid droeon a'u dileu, wyt ti'n gallu dal i orffwys yn dawel yn y gwirionedd fod gan Dduw gynllun ar dy gyfer di, ei fod E wrth y llyw a bod ei ffyrdd E'n well na'n ffyrdd ni?

Dydd Mawrth 15 Rhagfyr

Sut gwnaeth yr adnodau siarad â thi?

Sut gelli di adael i wirionedd a her y testun wneud argraff ar dy adfent?

Dduw, rwy'n diolch i Ti am…

Dydd Mercher 16 Rhagfyr

Luc 2:8-20

"Dewch! Gadewch i ni fynd i Bethlehem, i weld beth mae'r Arglwydd wedi'i ddweud wrthon ni sydd wedi digwydd." Luc 2:15

Does dim gwahaniaeth faint o weithiau rwy'n darllen yr hanes yma, mae'n fy ngwneud i'n drist nad oes unrhyw sôn am yr oen bach rydyn ni bob amser yn ei weld yn fersiwn y plant o ddrama'r geni. Rydyn ni wedi dod yn gyfarwydd â gweld y bugeiliaid; llieiniau sychu llestri o gwmpas eu pennau, ffyn papier mâché yn eu dwylo a dafad wlanog wedi'i stwffio o dan eu ceseiliau.

Mae'n fersiwn hardd – ond yn fersiwn gamarweiniol. Dim ond rhan fach o broblem fwy yw'r defaid ond maen nhw'n bwysig. Mae'n anghywir am fod hyn yn aml yn golygu methiant i amlygu pwysigrwydd yr hyn sy'n digwydd. Mae defaid yn lletchwith, yn anufudd ac yn anifeiliaid gwyllt o hyd – dydy cario un ohonyn nhw dan eich cesail er mwyn ei chyflwyno i fabi newydd-anedig ddim yn syniad arbennig o dda. Ond mae'r defaid yn aml yn gwanhau ergyd yr hanes, yn ei gwneud yn haws cydymdeimlo, gan ennyn "O!" yn lle "WAW".

Roedd y bugeiliaid hyn, a oedd wrthi'n eistedd ac yn meindio eu busnes eu hunain fel y bydden nhw'n ei wneud noson ar ôl noson, fis ar ôl mis, flwyddyn ar ôl blwyddyn, wedi'u caledu; roedden nhw'n ymladd dros y defaid, yn eistedd yn yr haul ac yn cysgu ar y ddaear galed. Y tu hwnt i oleuadau llachar y ddinas, yr hyn fyddai wedi goleuo eu nosweithiau fyddai'r lleuad a'r sêr. Yna, o unman, goleuodd yr awyr! Does dim rhyfedd mai'r llinell agoriadol yw "Peidiwch bod ofn".

Tybed faint ohonom ni sy'n gweddïo "Tyrd Dduw" ond yn dymuno iddo fod fel oen addfwyn yn hytrach na'r golau llachar arswydus sy'n gwanu'r tywyllwch o'n cwmpas ni?

Noson arferol oedd hi i'r bugeiliaid hyn, ond yna mewn eiliad fe newidiodd popeth.  Dyna'r effaith gall Duw ei chael ar dy fywyd di – does dim angen cynhesu neu fod yn y meddylfryd iawn neu wybod digon o ganeuon mawl.

Mae'r ymateb hefyd yn glir i bawb ei weld, sef "Dewch! Gadewch i ni fynd". Bydd cyfarfod â Duw'n symud pethau, yn achosi newid, yn dod â stori i chi i'w hadrodd.

Dros y cwpl o ddiwrnodau nesaf, myfyria ar yr adnodau hyn. Efallai bydd angen i ti ddechrau drwy chwalu'r fersiwn rwyt ti'n ei feddwl rwyt ti'n ei gwybod a darllen y testun mewn ffordd ffres, ddiduedd a heb y ddafad wlanog. Beth mae Duw'n ei ddweud wrthyt ti ar gyfer dy fywyd drwy hanes y bugeiliaid cyffredin?

Dydd Iau 17 Rhagfyr

Sut gwnaeth yr adnodau siarad â thi?

Sut gelli di adael i wirionedd a her y testun wneud argraff ar dy adfent?

Dduw, rwy'n diolch i Ti am…

Dydd Gwener 18 Rhagfyr

Mathew 2:1-8

"Ewch i Bethlehem i chwilio am y plentyn. A gadewch i mi wybod pan ddewch o hyd iddo, er mwyn i mi gael mynd i dalu teyrnged iddo hefyd." Mathew 2:8

Rwy'n greadur sy'n hoffi rheoli popeth! Dyna fi wedi'i ddweud! Rwy'n hoffi eistedd gyda rheolydd y teledu wrth fy ochr i. Rydw i bob amser eisiau gwybod lle mae fy ffôn i. Rydw i eisiau mai fi yw'r un sy'n gyrru ac rwy'n hoffi cadw derbynebau ar gyfer pethau. Rwy'n cadw rhestr o bethau i'w gwneud ac rwy'n ysgrifennu'r rhestr honno bob dydd Llun. Mae holl gemau Lerpwl yn cael eu hychwanegu at fy nghalendr Google. Dw i ddim yn credu bod hoffi rheoli'n rhywbeth ofnadwy ond pan mai bod mewn rheolaeth sy'n mynd â'n bryd ni, yna efallai ein bod ni wedi llithro i dir drwg.

Herod oedd y Brenin ac rwy'n dychmygu y byddai honno'n safle da i fod ynddo; roedd e'n gallu rheoli ei dynged, rheoli ei bobl, rheoli'r tir, ac roedd ganddo awdurdod dros fyddinoedd. Gallwch chi ddychmygu sut y byddai rheoli wedi dod yn naturiol iddo.

Yna mae'r Doethion hyn yn cyrraedd, wedi'u cyffroi achos bod brenin newydd wedi ei eni. Dydy Herod ddim yn meddwl "gwych", ond yn meddwl yn lle hynny "Ond fi yw'r Brenin". Mae'r teithwyr hyn o bell newydd ysgwyd holl strwythurau rheoli bach taclus Herod i'r llawr.

Pan fyddwn ni'n dechrau colli rheolaeth ar sefyllfa, byddwn ni'n aml yn dangos rhai o'n gwir briodoleddau, sef priodoleddau sy'n aml wedi'u cuddio. Bydd rhai'n mynd yn flin ac yn taro allan, tra bydd eraill yn cuddio yn y gornel ac eraill, fel Herod, yn cynllwynio ffordd o gadw rheolaeth.

Mae Herod yn cael ei bortreadu fel dihiryn yn y stori yma, ac mae ei weithredoedd yn sicr yn caniatáu i ni feddwl mai dyma brif nodwedd ei gymeriad, ond cyn i ni ei feirniadu'n rhy llym efallai dylen ni edrych ychydig yn fanylach ar ein bywydau ein hunain. Fel cynifer o gymeriadau yn stori'r Nadolig, roedd ei fywyd yn mynd i un cyfeiriad un diwrnod ac yna, yn sydyn, diolch i'r angylion, y breuddwydion a'r doethion, roedd ei fywyd nawr yn mynd i gyfeiriad gwahanol.

Herod oedd yn llywodraethu a nawr roedd rhywun yn dweud wrtho y byddai ei bŵer yn cael ei dynnu oddi arno gan frenin newydd. Mewn chwinciad, roedd popeth, ei deitl, ei awdurdod, ei dŷ, ei gyfoeth - y cyfan - dan fygythiad.

Nid ymateb dihiryn mewn ffilm Disney yn unig yw ymateb Herod, ond ymateb person fyddai'n gwneud unrhyw beth i gadw rheolaeth dros y pethau hynny mae wedi caniatáu iddyn nhw fod yn eilunod yn ei fywyd.

Dydd Sadwrn 19 Rhagfyr

Sut gwnaeth yr adnodau siarad â thi?

Sut gelli di adael i wirionedd a her y testun wneud argraff ar dy adfent?

Dduw, rwy'n diolch i Ti am…

Mae Ysbryd fy Meistr, yr ARGLWYDD,
arna i,
am fod yr ARGLWYDD wedi fy eneinio
i'w wasanaethu.
Mae wedi fy anfon i gyhoeddi
newyddion da i'r tlodion,
i drin briwiau'r rhai sydd wedi torri
eu calonnau,
a chyhoeddi fod y rhai sy'n gaeth i
gael rhyddid,
ac i ollwng carcharorion yn rhydd;
i gyhoeddi fod blwyddyn ffafr yr
ARGLWYDD yma,
a'r diwrnod pan fydd Duw yn dial;
i gysuro'r rhai sy'n galaru –

Isaiah 61:1-2

Dydd Llun 21 Rhagfyr

Mathew 2:9-12

Yna dyma nhw'n agor eu paciau a rhoi anrhegion gwerthfawr iddo – aur a thus a myrr. Mathew 2:11

Mae mor agos fel y gelli di bron â chyffwrdd ynddo. Mewn gwirionedd, i lawer ohonom ni mae'n debyg ei fod o dan y goeden wedi'i lapio ac yn barod (neu i'r bobl anhrefnus yna fel fi, mae wedi'i guddio yn y cwpwrdd dillad yn barod ar gyfer 'noson y lapio' pan fydd popeth yn cael ei orchuddio gan bapur a selotep).

Mae'n fy nharo i'n rhyfedd sut byddwn i, am flynyddoedd lawer, yn arfer clywed gan yr eglwys nad yw'r Nadolig am anrhegion ond yn hytrach fod y cyfan am Iesu. Nawr dw i ddim yn anghytuno bod y Nadolig i gyd am Iesu, ond mi rydw i'n anghytuno nad yw'r Nadolig am anrhegion achos rydyn ni'n gweld yn yr adnodau hyn fod anrhegion yn rhan fawr o stori'r Nadolig.

Ioan 3:16 – 'mae Duw wedi...rhoi' – roedd eu hanrhegion wedi dechrau gyda Duw. Nid rhywbeth mae pobl wedi'i greu a llygru'r Nadolig ag e yw rhoi anrhegion. Mae'n rhywbeth rydyn ni wedi'i ddysgu gan Dduw ein Creawdwr. Mae rhoi yn golygu cael ein gwneud ar Ei ddelw. Mae'r doethion yn ymateb yn y ffordd rydyn ni i fod i ymateb, sef rhoi.

Mae'n hawdd diystyru'r adran fach yma achos yr anrhegion mae'r doethion hyn wedi'u dewis, sef aur, thus a myrr. Roedden nhw'n anrhegion drud a rhyfedd sy'n golygu y gallwn ni ddarllen y geiriau a diystyru'r weithred.

Ond mae'r weithred yn allweddol achos mae'n wers i ni. Pan ydyn ni'n dod at Iesu, rydyn ni bob amser yn dod â rhywbeth gyda ni! Dw i erioed wedi dod at droed y groes heb ddim byd. Ar y man gwaethaf, rydw i wedi dod â beichiau fy mywyd, ac ar y man gorau rwy'n dod â chlod a mawl, ond rydw i bob amser yn dod â rhywbeth.

Sut gallai'r Nadolig hwn edrych pe bydden ni'n derbyn ein bod ni'n dod â rhywbeth lle bynnag rydyn ni'n mynd? 'Ydy, mae Duw wedi caru'r byd cymaint nes iddo roi ei unig Fab'. Weithiau, y cyfan sydd gennyn ni yw popeth sydd gennyn ni; weithiau mae'n costio mwy i ni nag arian.

Cychwynnodd y doethion gyda'r anrhegion hyn. Roedden nhw'n llawn fwriadu dod ag anrhegion i'r plentyn. Wrth i ni ddechrau edrych at ddiwrnod y Nadolig, beth wyt ti'n dod ag e i'w gyflwyno i Grist. Wnei di roi dy hunan oll? Wnei di gynnig popeth iddo Fe?

Wrth i ti adlewrychu ar yr adnodau hyn, ystyria dy fywyd. Pa mor gyfforddus fyddet ti petai Duw eisiau cymryd rheolaeth dros agweddau penodol o'th fywyd di? Efallai mai'r lleoedd y byddet ti'n lleiaf cyfforddus iddo Fe eu rheoli yw'r lleoedd i adael fynd ohonyn nhw'n gyntaf?

Dydd Mawrth 22 Rhagfyr

Sut gwnaeth yr adnodau siarad â thi?

Sut gelli di adael i wirionedd a her y testun wneud argraff ar dy adfent?

Dduw, rwy'n diolch i Ti am…

Dydd Mercher 23 Rhagfyr

Mathew 2:13-18

Felly cododd Joseff ganol nos a gadael am yr Aifft gyda'r plentyn a'i fam. Matthew 2:14

Rwy'n caru Duw ond rydw i bob amser wedi poeni am Ei gynlluniau gyda'r Iesu. Mae'r cyfan yn edrych ychydig, wel, ychydig yn beryglus i fi. Cafodd ei eni mewn preseb, yn yr oerfel, gyda'r anifeiliaid!! Cafodd ei eni i ferch ifanc heb unrhyw sgiliau magu plant. Cafodd ei eni ar adeg pan nad oedd y gofal meddygol cystal â hynny, a chafodd ei eni heb unrhyw fydwraig yn bresennol! Mae'r seren ddisglair yn gofyn am drwbl, a wedyn mae yna frenin sy'n dyheu am bŵer.

Fyddai ddim wedi bod yn anodd dod o hyd i ffordd fwy diogel o ddod â Iesu i'r stori.

Ond i lawer ohonom ni, mae Iesu'n ymddangos mewn byd rydyn ni'n ei ddeall, wrth i ni wynebu heriau, byw ar y cyrion, bod yn agored i niwed ac angen cefnogaeth gan eraill. Caiff Iesu ei eni i fyd rydyn ni'n dal i'w weld o'n cwmpas ni.

Ac yn hanes y ffoi i'r Aifft, rydyn ni'n cael ein herio. Fyddwn i wedi derbyn Mair, Joseff a Iesu i'm cartref i, i'm bywyd i? Cofia nad Iesu'r iachäwr sydd yma ond Iesu'r baban.

Byddwn i'n arswydo wrth hyd yn oed feddwl am y syniad o droi Iesu i ffwrdd, ac allwn i ddim, fyddwn i ddim. Iesu ydy e – Mab Duw ei hun – felly mae hynny'n gwneud yr adnod yma'n un anodd ei llyncu.

Mathew 25:40 Credwch chi fi, pan wnaethoch chi helpu'r person lleiaf pwysig sy'n perthyn i mi, gwnaethoch chi fy helpu i.

Daeth Iesu i fyw ymhlith pobl a gafodd eu gwneud ar Ei union ddelw, pobl yr oedd ôl bys Duw ar eu hanfod. A'r ffordd y bydden ni'n ystyried trin Iesu yw'r ffordd y mae angen i ni ystyried trin eraill; y rhai rydyn ni'n eu caru a'r rhai rydyn ni'n edrych i lawr arnyn nhw, y rhai gallwn ni gael rhywbeth ganddyn nhw a'r rhai na fyddan nhw'n rhoi'r un wobr i ni.

Mae'r Nadolig, yn fwy na'r un adeg arall o'r flwyddyn, yn f'atgoffa i fod Iesu wedi dod drosof i, achos Ei gariad ataf i. Nid achos fy mod i wedi ennill hynny, nid achos fy mod i'n Gymro neu'n Gymraes neu'n wyn na dim byd arall sy'n fy nghynrychioli i, ond er fy mwyn i.

Sut gallwn ni ddangos y cariad yna i eraill, gan helpu'r person lleiaf pwysig yn yr un ffordd ag y bydden ni'n helpu Iesu ei hun?

Dydd Iau 24 Rhagfyr

Sut gwnaeth yr adnodau siarad â thi?

Sut gelli di adael i wirionedd a her y testun wneud argraff ar dy adfent?

Dduw, rwy'n diolch i Ti am…

# Nodiadau a Sylwadau

MORIAH BAPTIST CHURCH | RISCA